# YMGYRCH CYMRU

CYLCHLYTHYR AELODAU CND CYMRU RHIF 13 AWST/MEDI/HYDREF 1989 20c


# Cyrraedd yr uchelfannau

**Oes raid i mi wneud hyn? Pam fi? Dim ond dau o'r pethau oedd yn mynd drwy meddwl i wrth sleifio mewn i'r safle adeiladu oedd yn edrych i lawr ar Parliament Square ddydd Mawrth, Ebrill y 4ydd — y diwrnod oedd yn nodi deugeinfed penblwydd NATO.**

Pam oeddwn i'n llechu rhag y dynion oedd yn gwarchod y safle ac yn sgrialu dringo i ben saith llawr o sgaffaldiau i glymu baner?

Ar ôl stryffaglu i fyny hyd y pedwerydd llawr efo'r faner ar fy ysgwydd mi ddois i le nad oedd yn arwain i unlle. A finnau mewn anobaith llwyr mi fentrais ofyn i frici fy nghyfeirio ar i fyny. ''Dydw i ddim yn saff yr hen gyfaill, mae'r blydi lle 'ma fel waren gwningod.'' Cytunais innau'n dalog â'i farn.

Felly efo'r helmed ddiogelwch wen am fy mhen, lawr â fi i'r llawr isaf a chychwyn o'r cychwyn unwaith eto.

Wrth i mi gerdded yn garcus ar y safle i gyfeiriad y lefel gyntaf o sgaffaldiau fe ges fy nhemtio i roi'r ffidil yn y to a'i heglu hi oddi yno. Wn i ddim prun ai egwyddor ynteu falchder a'm gwnaeth i'n fwy penderfynol wrth i mi ganfod yr ystol gyntaf o saith fyddai'n arwain fy i'r entrychion — ond dringo wnes i.

Beth sy'n ein gwneud ni aelodau CND herio holl rymuster y sefydliad? Beth sy'n ein sbarduno ni i fod wrthi'n rhannu taflenni diddiwedd, mynychu cyfarfodydd, a'r mil a mwy o bethau eraill sy' raid eu gwneud i gadw'r mudiad i fynd?

I fyny ac i fyny â fi nes cyrraedd y lle iawn yn ôl fy amcangyfrif i. Roeddwn i'n gallu clywed gweithwyr wrthi uwch fy mhen ac oddi tanaf. Tra'n ceisio perswadio fy hun nad oedd dim i'w ofni mi es ati'n ddiymdroi i glymu top y faner yn sownd wrth y sgaffaldiau. Roedd yr adrenalin yn llifo a finnau fel tae gen i ddwy law chwith a mwd rhwng y bysedd. Wrth edrych i lawr mi welwn i ddau ddyn reit odanaf fi yn llwytho craen.

Munudau o ddal fy ngwynt yn disgwyl iddyn nhw symud, a mwy o amser i hel meddyliau ynglŷn â pham mae rhywun yn gwneud y pethau yma.

Ai dicter ydi'r ysgogiad? Dicter fod cymaint o adnoddau yn cael eu hafradu, gwastraffu biliynnau ar arfau i ddifa lliaws o bobol tra mae llawer yn marw o newyn, eraill heb do uwch eu pen a diffyg gofal iechyd?

Erbyn hyn roedd hi'n ddiogel i mi ollwng y faner, ac i lawr â hi gan ddatgan i'r byd y betws a'r Llywodraeth — ''DIM NIWCS NEWYDD''. (Mi ofynnodd yr A.S. Dennis Skinner yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw'n y Senedd ai polisi newydd gan y Llywodraeth oedd hyn ar drothwy ymweliad Gorbachev).

Disgyn y sgaffaldiau yn sydyn gan obeithio medru clymu gwaelod y faner yn sownd. Roeddwn i o fewn un llawr i gyrraedd pan ymddangosodd fforman yn gweiddi nerth esgyrn ei ben ar y swyddogion diogelwch. ''Mae 'na **** baner CND yn hongian yr wyneb yr adeilad — ewch i nol y swyddogion diogelwch. Mae'n rhaid eu bod nhw'n dal yno.''

Gan benderfynu fod doethineb yn well na dewrder dan yr amgylchiadau, mi sleifiais yn ddistaw o'r safle efo'r swyddogion diogelwch yn fy mhasio ac yn mynd i'r cyfeiriad arall.

**Bob Cole**




*A message to NATO from CND Cymru hangs from the wall of Cardiff Castle.*

*Neges i NATO oddi wrth CND Cymru, yn hongian o wal Castell Caerdydd.*

## Y TU MEWN

**Hiroshima — Byth Eto! Dowch i gyfarfod coffa diwrnod Hiroshima a drefnir gan CND Cymru yn Llanrwst ar ddydd Sul, 6 Awst am 3 p.m.**

# HEDDWCH AC ANNIBYNIAETH

Yn dilyn ymwelaid â Chymru ym mis Chwefror 1988, gan bedwar aelod o'r Pwyllgor Latfiaidd, daeth gwahoddiad i ddirprwyaeth o CND Cymru ymweld â Latfia.

Penderfynodd CND ehangu'r ddirprwyaeth trwy gynnwys cynrychiolydd o'r Eglwysi yng Nghymru ac Undebau Llafur -- ysgrifennydd NUPE yng Nghymru. Yn y ddirprwyaeth o saith, felly, roedd y ddau yma, ynghyd â brodor o Latfia (yn briod â Sais) sydd yn aelod o Gyngor CND Prydeinig.

Pan gyrhaeddon ni Riga ar yr awyren doedd gennym ni fawr o syniad sut byddai'r daith yn mynd a beth bydden ni'n ei drafod. Roedden ni'n ymwybodol iawn o'r newidiadau cynhyrfus sydd yn digwydd yn y dair wladwriaeth Faltaidd yn ogystal ag yn yr Undeb Sofietaidd -- hyn i gyd yn erbyn cefndir cynigion heddwch Gorbachev.

Cawsom ni dri chyfarfod gweddol ffurfiol gydag aelodau o'r Pwyllgor Heddwch Latfiaidd, a oedd wedi'n gwahodd. Roedd hi'n amlwg o safbwynt y ddwy wlad fod y symudiad diweddar tuag at ddiarfogi wedi creu hinsawdd fwy optimistaiddd nag yn y cyfarfodydd diwetha 16 mis yn ôl.

Yr hyn ddaeth yn glir o'r cychwyn ac a gafodd ei ategu yn ystod yr wythnos oedd bod y newidiadau sy'n digwydd yn Latfia wedi ennyn cyffro a diddordeb ym mhobl y wlad.

Maen nhw'n ymboeni am heddwch y byd, ond yn gweld diarfogi (niwcliar a chonfensiynol) fel pwnc sydd â chyswllt pendant â chost eu gwasanaethau hanfodol ac â gwella eu safon byw. Maen nhw'n ymwybodol iawn fod eu safon byw yn is nag yn y Gorllewin ac yn is na'r hyn oedd ganddyn nhw rhwng y ddau ryfel pan gawson nhw ugain mlynedd o annibynniaeth.

Cawsom ni'r argraff mai annibynniaeth oedd nod y mwyafrif o bobol Latfia, er mai ychydig o gysylltiad â phobl gaiff rhywun o fewn ychydig ddyddiau. Ond cafodd y ddirprwyaeth ei rhannu am ddau diwrnod a hanner a chawsom gyfle i ymweld â threfi bach ac ardaloedd gwledig ac i gyfarfod pobl yn eu cartrefi.

Roedd caredigion yr amgylchfyd yn pryderu'n fawr am lygredd, oddi wrth ddiwydiant a charthffosiaeth, sydd yn golygu nad oes modd nofio mewn llawer o afonydd a thraethau tywod o gwmpas Riga.

Mae eu Senedd newydd wrthod atomfa arfaethedig, ond wnaethom ni ddim cyfarfod pobl gyda safiad gwrth-niwcliar pendant — roedd llygredd o fathau eraill yn peri mwy o bryder iddynt.

Roeddem yn teimlo fod heddwch yn ofnadwy o bwysig iddyn nhw — dydy hyn ddim yn syndod mewn gwlad a ddioddefodd mor fawr o dan Stalin a'r Nazis yn ystod ac ar ôl y rhyfel diwethaf.

Mae eu gweledigaeth am ddyfodol heddychlon a ffyniannus ynghlwm wrth fwy o annibynniaeth, ac i rai, annibynniaeth lwyr, oddi wrth yr Undeb Sofietaidd.

Rhoda Jones

# Y Ffrynt Boblogaidd — Y Wers i Gymru

**Sut mae dechrau sôn am ymweliad diweddar dirprwyaeth o Gymru â Latfia? Er taw CND Cymru a drefnodd y daith prin fu'r enghreifftiau o drafod arfau a diarfogi.**

Roedd y chwyldro cymdeithasol a gwleidyddol sydd ar gerdded yn y wlad yn denu'n sylw ac yn ein syfrdanu.

Cyn nodi rhai o'r camau a gymerwyd yn y misoedd diwethaf dylem amlinellu'n fras gefndir y wlad. O ran poblogaeth mae'n cymharu â Chymru, sef rhyw ddwy filiwn a hanner, gyda 900,000 yn byw yn y brifddinas Riga. Bu'r wlad dan ormes gwleidyddol er y drydedd ganrif ar ddeg, gan yr Almaenwyr yn bennaf er y bu byddinoedd Pwyl a Sweden ar ymweliad â hi.

Yn y ganrif yma bu cyfnod o annibynniaeth rhwng y ddau ryfel byd ac yna daeth Stalin yn 1939 a Hitler yn 1941. Gyda dyfodiad y Fyddin Goch bu Latfia dan bawen y Sofiet heb gyfle i fynegiant genedlaethol.

Mae Latfia'n wlad ddiwylliedig, ond gwelwyd cyfyngiadau yn y maes hwnnw hefyd. Yn yr un modd gwaharddwyd yr arfer o addoli mewn nifer o eglwysi gan eu defnyddio ar gyfer cyngherddau yn unig. Yr oedd pawb a phopeth yn ddarostyngedig i ofynion a buddiannau'r wladwriaeth Sofietaidd. Ac yna daeth Gorbachev.

Daeth y cyfle i sefydlu arwahanrwydd Latfia a manteisiwyd hyd yr eithaf ar y sefyllfa. Cyhoeddwyd taw'r Latfeg fydd iaith swyddogol y wlad a bydd gofyn i bawb fod yn hyddysg ynddi o fewn pum mlynedd.

Ail-agorwyd yr eglwysi, dileuwyd y gwaharddiadau ar fudiadau a mynegiant barn o fewn y wlad a dechreuwyd ar y broses o ailgyfeirio'r economi.

Wynebwyd y broblem fawr o fewnfudo. Yn y brifddinas Riga y mae dwy ran o dair o'r boblogaeth yn Rwsiaid, ac felly penderfynwyd rheoli'r symudiadau i mewn i Latfia. Os cyflogir unrhyw un oddi-allan i Latfia gan gwmni yn y brifddinas rhaid talu 20,000 rwbl.

Rhaid cofio, hefyd, wrth ymdrin â'r penderfyniadau a gymerwyd eisoes gan y Latifiad i sefydlu hunaniaeth a chreu arwahanrwydd ein bod yn sôn am gyfnod o ychydig fisoedd yn unig. Mae ganddynt gynlluniau, mae ganddynt obeithion ac yn bennaf oll mae ganddynt hyder cenedlaethol.

Profiad gwefreiddiol oedd bod yn Latfia a theimlo yn ogystal â gweld yr ysbryd newydd ar gerdded yn y wlad. Ond profiad digon chwithig oedd dychwelyd i Gymru a sylweddoli nad ydym wedi gwneud dim yn ystod y deng mlynedd diwethaf i ryddhau y genedl o grafangau Thatcheriaeth.

Yr ydym yn eistedd yn ôl yn gysurus gan wag siarad am yr etholiad gyffredinol nesaf. Y mae gennym gyfle yn awr i uno Cymru ar nifer o bynciau, megis senedd i Gymru, deddf iaith, rheolaeth ar y farchnad dai, economi sydd wedi ei chyfeirio tuag at wasanaethau yn hytrach nac elw, treth incwm leol yn hytrach na threth gymunedol, creu realiti o Gymru ddi-niwcliar.

Gwell gennym ni ddadlau achos ein plaid wleidyddol ein hunain neu ein grŵp ymgyrchu arbenigol, yn hytrach na chreu symudiadau poblogaidd sy'n gweithredu ac na ellir ei atal.

Y mae'r ffrynt boblogaidd yn Latfia yn cynrychioli gwahanol safbwyntiau ac yn cynnwys gwahanol bleidiau a grwpiau, ond llwyddwyd i ddarostwng buddiannau'r rhaniadau er mwyn cyflawni'r nod o greu hunaniaeth a sefydlu arwahanrwydd.

Un gair cyn tewi. Nid sôn yr ydw i am gytundeb etholiadol. Bu etholiadau'n gwbl amherthnasol i dynged Cymru dros y ddeng mlynedd diwethaf, a'r tebygrwydd yw y bydd yr etholiad cyffredinol nesaf yr un mor amherthnasol.

Yr hyn sydd ei angen yw symudiad cenedlaethol. Mae'r potensial yno — y cwestiwn yw a oes gennym yr hyder cenedlaethol i'w weithredu?

**Rhodri Glyn Thomas**



Aelodau ifanc grŵp gwerin 'Janis' o Latfia — diwylliant traddodiadol yn rhoi cyfle i fynegiant rhydd.
*Young members of the Latvian folk group 'Janis' — traditional culture provides an outlet for 'free' expression.*

# Yr ifanc eisiau bywyd haws

**Ar ôl blynyddoedd o ymostwng tawel, mae pobl Latfia'n barod i gwffio dros yr hyn mae' nhw'n ei gredu sy'n perthyn iddyn nhw: y tir mae' nhw'n troedio arno, a'r awyr mae' nhw'n ei anadlu.**

Maen nhw'n hawlio annibynniaeth a rhyddid rhag yr hyn maen nhw'n ei weld fel y gormeswr mawr Sofietaidd — ac mae'n nhw eisiau'r rhyddid hwnnw yn awr. Dim mwy o betruso, dim ychwaneg o amser i'w golli — annibynniaeth yn awr!

Ond ydy hyn i gyd yn digwydd yn rhy gyflym ac yn rhy angerddol i arweinwyr yr Undeb Sofietaidd sydd, wedi'r cwbwl yn rhwym, o weld hyn fel bygythiad?

Ar ôl sgwrsio â nifer o bobl ifainc o'r dre fach Latfiaidd, Aluksne, gellid gweld gobeithion yr ifainc yn mynd i'r eithaf. Ni oedd yr ymwelwyr cyntaf o'r Gorllewin yn y rhan hon o Latfia, oherwydd seilos cyflegrau anferthol y Sofietiaid a fu yma tan yn ddiweddar.

Roedden nhw am i ni weld mor bell y tu ôl i'r Gorllewin yr oedden nhw a pha mor awyddus yr oedden nhw i symud ymlaen.

Gofynnodd un ferch ifanc dwy ar bymtheg oed, o'r enw Ligai, i mi lle roeddwn i wedi bod a beth roeddwn i wedi'i weld. Dywedais i wrthi. Dywedodd hithau wrthyf i wedyn mai dim ond unwaith roedd hi wedi gadael ei thref enedigol, ac mai ychydig o obaith oedd ganddi i ymweld â'r Gorllewin — onibai i Latfia gael ei rhyddhau.

Ond gydag economi sydd ar ei hôl na allai byth gynnal poblogaeth o 2.7 miliwn, mae rhywun yn gofyn sut byddai modd ennill rhyddid oddi wrth yr Undeb Sofietaidd.

Mae eu diwylliant traddodiadol yn cynnig cyfrwng mynegiant. Mae 'Janis' (y gwelir ei lun uchod) yn un o filoedd o grwpiau a sefydlwyd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf i gynnig 'dihangfa'. Fel dywed y bardd Ojars Vacietis yn y gerdd *Ieuenctid*

> 'Mae eraill yn cael bywydau haws,
> Pam na ddylwn i...

Efallai bydd 'bywyd haws' pobl y Gorllewin rywbryd yn cael ei gynnig i'r Latfiaid ond gobeithio, os digwyddith hynny, na chân nhw mo'u siomi'n ormodol.

**Joanne Castle**
**Ieuenctid CND Cymru**

# UNDEBWR LLAFUR YN LATFIA

Nid oes dim amheuaeth am y croeso diffuant a chynnes a gafodd y ddirprwyaeth o CND bron o'r foment cyrhaeddon ni yn Riga. Lle bynnag yr aethom ni cawsom ni fod pobl yn awyddus i geisio ac i roi gwybodaeth.

Ar ôl y cyfarfod cyntaf gyda'r Pwyllgor Heddwch rhannwyd y ddirprwyaeth yn dair. Teithiasom ni i ardal wledig Aluksne, gan aros yng nghartrefi pobl leol. Gwelsom lawer o'r ardal, ei diwylliant a'i sefydliadau, gan gynnwys fferm gydweithredol, ysgol feithrin, ysgol ac ysbyty bach. Ym mhob man cawsom ni groeso arbennig o hael, a phobl yn dangos diddordeb mawr.

Fel undebwr llafur, roeddwn i'n arbennig o awyddus i drafod safonau byw, y gwasanaethau cyhoeddus a rôl yr undebwyr llafur yn y sefyllfa wleidyddol a oedd yn datblygu.

Roedd hi'n amlwg iawn fod amrywiadau mawr, yn dibynnu ar lwyddiant neu fethiant mentrau lleol, ac, er fy mod i'n ymwybodol o brinder nwyddau 'defnyddwyr' roeddwn i'n synnu bod llawer o fwydydd ac anghenion sylfaenol bywyd megis sebon a.y.y.b. yn cael eu dogni.

Roedd dirfawr angen gwella safon gyffredinol gwasanaethau cyhoeddus, er eu bod yn gynhwysfawr.

Roedd y sefyllfa wleidyddol yn ysgogi llawer o gyffro ac optimistiaeth, ac roedd Gorbachev yn boblogaidd gan bawb, bron. Er bod lleiafrif o fewn y Ffrynt Boblogaidd oedd yn ceisio annibynniaeth, yn peri pryder i mi ac roedd rhai agweddau hiliol tuag at y Rwsiaid a oedd yn fy mhoeni i hefyd.

Dyma'r argraffiadau fydd yn aros gyda mi: economi dlodaidd, wedi'i thynnu i lawr gan fiwrocratiaeth or-ganolog, a bil amddiffyn a gâi effaith ddybryd ar safonau byw. Roedd yr awydd i wella safonau byw trwy leihau gwariant ar arfau yn glir ymhobman, ac yn rhoi gobaith i mi am y dyfodol.

Rhaid i ni sicrhau fod ein llywodraeth yn ymateb i awydd go iawn am heddwch ac yna gallwn i gyd fyw mewn byd mwy ffyniannus a mwy diogel.

Derek Gregory
NUPE

# Darllenwch amdano...



Y Blaid Lafur yn cefnu ar ddiarfogi unochrog... argyfwng yn NATO... arlywyddiaeth Bush... Cyfweliadau gydag Emma Thompson a Sandie Shaw... erthyglau gan Clive Ponting ac E.P. Thompson...
Mae'r cwbl yn SANITY, cylchgrawn misol **Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear.**
**Tanysgrifiwch yn awr!**

Danfonwch SANITY ataf yn fisol. Pris tanysgrifio: Cyflogedig £10.50☐ Digyflog £8☐

Enw ......

Cyfeiriad ......

......

Sieciau ac archebion post i CND. Anfonwch gyda'r ffurflen uchod at Alison Williams, CND, FREEPOST, 22/24 Underwood St., Llundain, N1 7JG. c




Aberystwyth 1986

## YMGYRCHU



Yn ôl i 'terra firma' — Rhodri Thomas yn pasio'r hofrennydd sy'n cludo bomiau niwcliar HMS Cardiff.
*Back to 'terra firma' — Rhodri Thomas passes the helicopter which would deliver HMS Cardiff's nuclear depth bombs.*

# DIARFOGI'R MOROEDD

Yn ystod mis Mai, ymwelodd un o ddistryw-longau'r llynges, teip 42, â dociau Caerdydd ar daith bropaganda bedwar niwrnod. Llong ryfel o arfogaeth niwclear yw'r ddistryw-long teip 42, ac mewn rhai amgylchiadau, cariant fomiau niwclear y dyfnder ar gyfer cyrch yn erbyn llongau tanfor.

Gwrthwynebwyd yr ymweliad yn chwyrn gan CND De Morgannwg. Hysbyswyd arweinyddion llywodraeth leol o'r posibiliadau y gallai H.M.S. Caerdydd fod yn arfaethu cario arfau niwclear i brifddinas Cymru Ddiniwclear, a chanolbywntiodd y cyfryngau ar amharodrwydd y Llynges i gadarnhau neu wadu a oedd y llong ryfel yn cario'r fath arfau ai peidio.

Gwrthododd Lorna Hughes, Cadeirydd Cyngor Sir De Morgannwg, ymweld â'r llong, ar waethaf gwahoddiadau'r llynges, ond yn anffodus, ni feddai Maer Caerdydd, Bill Herbert, y fath betruster, ac yr oedd yn fwy na bodlon i chwarae'r rôl a bennwyd iddo gan drefnyddion cyhoeddusrwydd y llynges.

Fel y llithrai HMS Caerdydd i ddociau'r ddinas, cododd protestwyr gwrthniwclear lleol faner CND oddi ar glogwyni cyfagos penrhyn Penarth, a chyfaddefodd capten y llong ryfel fod y criw wedi sylwi ar y brotest.

Ymwelodd Rhodri Glyn Thomas, Cadeirydd CND Cymru, â'r llong ryfel i gyflwyno llythyr protest i'r capten, ac fe'i gwahoddwyd ar ei bwrdd i drafod polisïau niwclear gyda'r swyddogion morwrol.

O safbwynt mannau eraill yng Nghymru mae'r llynges yn bwriadu sefydlu Angorfa-Z i ganiatau ymweliadau llongau tanfor â dociau Abertawe. Ar ôl cynnal profion dichonoldeb, mae Panel Diogelwch Technoleg Niwclear y llynges wedi cyhoeddi eu bod o'r farn fod y porthladd yn addas i angori llongau tanfor tanwydd niwclear.

Cyn bod ymweliadau gwirioneddol, rhaid ffurfio cynllun diogelwch ar gyfer y posibilrwydd o argyfyngau ynglŷn ag adweithyddion llongau tanfor. Golyga hyn gydweithrediad Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg y mae ei aelodau eisoes wedi mabwysiadu polisi o wrthwynebu ymweliadau llongau tanfor. Bu dociau Abertawe yn ddiweddar yn westywyr i HMS Birmingham, math arall ar ddistryw-long Teip 42, tebyg i HMS Caerdydd.

'Moroedd Di-Niwclear' oedd testun gweithdy brwd yn ystod cyfarfod Cyngor CND Cymru ym Mehefin. Clywodd y gweithdy gan Graham Allen o SCANN (South Coast Against Nuclear Navies) ddisgrifiad o weithredu yng Nghylchoedd Portsmouth a Southampton i danlinellu peryglon arfau niwclear morwrol.

Trafododd yr aelodau y posibiliadau o sefydlu ymgyrch 'Gweithredu Môr' yng Nghymru i fynd â'r protestiadau i ddod 'ar y dŵr'. Gwahoddir morwyr, a phobl frwdfrydig o fyd llongau hwyliau, canŵyr, ac unrhyw rai eraill a garai ymuno â'r cyfryw grŵp i gysylltu hefo Peter Burt (Caerdydd 483340) am ragor o wybodaeth. Trefnwyd cyfarfod yn ddiweddarach yn yr haf, i'w ddilyn gan benwythnos o hyfforddiant ar yr arfordir, i drafod y sgiliau morwrol a'r rhagofalon diogelwch angenrheidiol.



**Delweddau cynnar o CND yng Nghymru... Rali "ban the bomb" yn Aberystwyth 1961 (chwith) a gorymdaith yn erbyn NATO yng Nghastellmartin yr un flwyddyn.**
**Early images of CND in Wales... 'Ban the Bomb' rally in Aberystwyth 1961 (left) and March against NATO in Castlemartin the same year.**

# BLE MAE'R BANERI O'R DYDDIAU A FU?

**Ydi'r copi diweddaraf o *Ymgyrch Cymru* yn dal yn eich meddiant, neu lythyr-newyddion eich grŵp heddwch lleol, neu'r dernyn o'r papur dyddiol 'roeddech chi am ei gadw? Beth am y llythyr hwnnw oddi wrth Bruce Kent?**

Aeth llawer o'r math hwn o ddefnydd i'r un cyffredin anghofrwydd â bathodynnau, baneri a chyfarpar diflanedig cyffelyb hen ymgyrchoedd. Yn syml, diflannodd y cwbl. Efallai fod peth ohono ar gael o hyd mewn taflodau, ystafelloedd-cefn neu ymysg trugareddau tŷ, ond mae pob diwrnod sydd yn myned heibio yn ei gwneud yn annos i gadw'r cyfryw rhag diflannu'n llwyr.

I'r mwyafrif o ymgyrchwyr dros heddwch yr unig gofnod sydd ar gael o'r ymgyrchu a fu yn erbyn Cruise neu Trident yw'r hyn a erys yn y cof neu ychydig o hen luniau. Ond beth am ymgyrchoedd cynharach na'r rhain — yn y chwedegau, y pumdegau neu cyn hynny?

Fel y nesawn at ddiwedd y degawd gyda achosion eraill yn y gwynt, yn arbennig rhai yn ymwneud â'r amgylchedd, ni allwn adael i etifeddiaeth CND lithro i anghofrwydd.

Cyngor Cenedlaethol Cymru CND oedd rhagflaenydd CND Cymru. Mae lluniau ar gael o rali yn Aberystwyrh ym 1961 gyda'r bwriad o ymgyrchu i roi terfyn ar arbrofion niwcliar yn yr awyrgylch. (Roedd peth pryder yng Nghymru am strontiwm 90 mewn llefrith plant.) Lediodd pwysau Byd-eang, gan gynnwys Cymru, at Gytundeb Gwaharddiad Rhannol ar Arbrofi 1963.

Dengys llun arall o'r cyfnod gannoedd o lowyr Cymreig yn gorymdeithio â CND a grwpiau eraill er gwrthwynebu hyfforddiant tanciau yng Nghastellmartin.

Dengys eraill fyfyrwyr dychrynedig Abertawe ar y strydoedd yn gwrthywnebu rhyfel niwcliar yn ystod argyfwng taflegrau Cuba ym 1963.

Mae pamffledyn o'r wythdegau canol yn argymell 'Stop Trident' yn od o debyg i un ar gael ugain mlynedd yn gynharach yn cefnogi atal Polaris.

Pa wersi, os o gwbl, a ddysgodd CND yn y cyfamser?
Pam fod ymgyrch y merched i Greenham gymaint mwy effeithiol na'r rhai cynharach yn erbyn canolfannau taflegrau?

Yn aml iawn, a heb sylweddoli hynny, teflwn ymaith gyfran helaeth o'n hanes. Oes rhywun yn poeni am hyn? Oes angen, mewn gair, cael Archifaeth Heddwch Cymreig arnom? Credaf fod, nid am resymau sentimental, ond am fod ein hymdrechion yn ogystal â'r gwersi a ddysgwyd a'r camgymeriadau a wnaed yn werth eu cofnodi.

Mae pobl fel Thalia Campbell gyda'i baneri hynod effeithiol wedi bod yn gwneud hyn ers blynyddoedd. Hanes byw yw'r baneri, all ysgogi meddwl a theimlad a hybu'r ymwybyddiaeth.

Pa le mae baneri heddwch diflanedig Cymru, y myrdd bathodynau, crysau-T, mygiau etc sy'n cwmpasu 30 mlynedd o ymgyrchu yn erbyn y bom? A beth am y posteri, pamffledi, pigion o'r wasg ac erwau o funudau cyfarfodydd yn ogystal â lluniau, ffilmiau a fideo?

Beth sydd gennyf mewn golwg yw archifaeth *fyw* wedi ei threfnu'n ofalus — ar linellau tebyg i Archifaeth Wleidyddol Cymreig sydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae hon yn dal i ddatblygu ac ar gael ar gyfer ymchwil ac i bobl Cymru a'r byd.


Mae llawer ffordd o weithredu archifaeth o'r fath a dylid cael help proffesiynol yn arbennig i'w sefydlu. Ond rhaid i ni weithredu ar unwaith a rhoi blaenoriaeth i gasglu a chadw ar lefelau lleol a rhanbarthol drwy Gymru gyfan.

Rwy'n sicr y byddai Archifaeth Heddwch Gymreig yn cael bob cefnogaeth ac ewyllys da. Mae'n bur debyg y bydd llawer yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst fydd yn barod i wneud cyfraniad.

Anfonwch eich sylwadau os gwelwch yn dda i ymgyrch Cymru.

**Tony Simpson**

# EFFAITH TŶ GWYDR — Y FFEITHIAU



**'D yw hi ddim yn beth anghyffredin bellach i glywed gwleidyddion, Ceidwadwyr gan mwyaf, ond hefyd er mawr syndod Alex Carlisle o'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn dweud mai ynni niwclear yw'r ateb i broblem yr 'Effaith Tŷ Gwydr'.**

Oherwydd fod tanwydd ffosil wedi cyfrannu at y broses sy' wedi cynhesu yr awyrgylch, ac effaith hynny o doddi'r iâ yn y pegynnau a chodi lefel y mor, mae ynni niwclear yn cael ei bedlera mewn rhai cylchoedd fel yr unig ateb effeithiol i'r broblem enfawr yma.

Ond mae 'meddyginiaeth' o'r fath fodd bynnag yn rhy rwydd a pheryglus, a bob tro y clywn hyn yn cael ei grybwyll mae'n ddyletswydd arnom i roi'r wrthddadl. Er gwaetha'r argyfwng real sy'n wynebu'r blaned oherwydd effaith gordwymo'r byd, allwn ni ddim caniatau i'r hunllef o gael atomfeydd niwclear i luosogi yn ddirifedi ym mhedwar ban y byd.

Llygredd yn yr awyr sy'n cadw'r gwres y tu mewn i awyrgylch y ddaear yw'r hyn sy'n achosi effaith tŷ gwydr. Ar lefel byd — mae pum mlynedd boethaf y ganrif hon wedi digwydd yn ystod y degawd diwethaf.

Carbon Diocseid sy'n cyfrannu 50% o'r nwyon Tŷ Gwydr. Ac mae hyn yn cynnwys:

- **20% o effaith llosgi'r fforestydd glaw trofannol, yn arbennig rhai Brasil. (Llynedd fe losgwyd ardal mor eang â Gwledydd Prydain yn jyngl yr Amason.)**
- **20% o lygredd sy'n cael ei gynhyrchu gan geir, a thrwy losgi glo, nwy ac olew mewn llefydd eraill ar wahan i'r pwerdai trydan.**
- **10% o'r gorsafoedd pwer sy'n defnyddio glo — llefydd fel Aberthaw, Didcot a Drax. (Mae Aberthaw 'A' a 'B' efo'i gilydd yn medru llosgi hyd at 700 tunnell o lo bob awr).**

Mae'r 50% o'r nwyon Tŷ Gwydr eraill yn cynnwys:

- **12% o Ozone gwan o gerbydau. (Mae hwn yn hollol wahanol i Ozone y stratosffir sy'n ein hamddiffyn ni rhag golau uwch-fioled yr haul.)**
- **14% Chlorofluorocarbons o ganiau chwistrellu, oergelloedd a chistiau rhewi, sustemau awyru ac ewyn ynysu. Mae CFCs hefyd yn gyfrifol am lastwreiddio Ozone y stratosffir.**
- **18% nwy Methane o domenni sbwriel etc.**
- **6% Nitrous Oxides o beipen 'exhaust' cerbydau a gwrteithiau.**

Felly 'dyw carbon diocseid sy'n deillio o losgi tanwydd ffosil ond yn gyfrifol am ganran fechan o'r hyn sy'n difrodi yr haenen Ozone — neu yr Effaith Tŷ Gwydr. 10% yw'r ffigwr ar lefel byd ac 16% yng Ngwledydd Prydain.

Ond y mae ymchwilwyr yn Sefydliad y Rocky Mountain yn haeru mai cynyddu wnaiff y $CO_2$ sy'n cael ei gynhyrchu a'i ryddhau i'r awyr ar lefel fyd-eang hyd yn oed pe buasai atomfa niwclear newydd yn cael ei chodi bob tridiau am y **37 mlynedd nesaf** ar gost o £80 biliwn y flwyddyn. Felly dyw Hinkley 'C', Wylfa 'B' a Sizewell 'B' ag 'C' o ddim arwyddocad o gwbl yn y frwydr i atal gordwymo'r ddaear, ac fe ddylid dangos y ffigyrau uchod yn syth i'r neb sy'n dadlau fel arall.

Yn fwy na hynny, wrth roi'n harian i godi PWRs mi rydan ni mewn gwirionedd yn tanseilio yr hyn y dylid ei wneud i ddelio â phroblem y Tŷ Gwydr. Mae rheini yn cynnwys:

- **Annog y defnydd effeithiol o ynni mewn cartrefi ac ym myd diwydiant. Fe amcangyfrifir y gellir arbed hyd at 70% o ynni pe baem ni'n disodli cyfarpar fyddwn ni'n brynu ar gyfer y tŷ. Ar hyn o bryd mae 60% o'r ynni sy'n cael ei gynhyrchu yn mynd i ddifancoll yn y siwrnai rhwng yr atomfa a'r soced trydan yn ein cartrefi.**
- **Fe ddylem ni wneud yn siŵr fod technoleg arbed ynni yn cael ei defnyddio wrth godi pob adeilad newydd a'u cymhwyso hefyd ar gyfer hen rai. Pe byddai gwydr dwbwl yn cael ei roi ar bob tŷ yng Ngwledydd Prydain fe amcangyfrifiwyd y byddai'r ynni a arbedwyd**

---

**Y mae'r ymgyrch dros Gymru ddi-niwclear wedi ei dwysau gyda lansiad y symudiad newydd yn erbyn Wylfa B.**

Ymgynullodd pobl dros Gymru benbaladr — ac o ardaloedd pellach na hynny — i Senedd-dy Owain Glyndwr ym Machynlleth ar ddechrau Gorffennaf, yn unol-unfarn yn eu gwrthwynebiad i'r cynlluniau i godi gorsaf niwclear newydd ar Ynys Môn.

Wylfa B yw'r trydydd Adweithydd Dŵr dan Bwysedd a arfaethir gan adran Ynni Cenedlaethol o'r Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan. Ond fe gam-
gymerasant yn ddybryd trwy osod Cymru ar eu rhestr dargedau.

Ebe Hugh Richards o Gynghrair Wrth-Niwclear Cymru, "Dengys yr holl bolau piniwn nad yw pobl Cymru eisiau ynni nicwlear, â'n bwriad yw cyfeirio'r ymdeimlad yma yn wrthwynebiad cadarn."

Bwriada CND Cymru chwarae rhan amlwg yn yr ymgyrch newydd er mwyn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan PAWB (Pobl Atal Wylfa B) a fu'n ymgyrchu yng Ngwynedd ers dros flwyddyn.

Rhoes PAWB lansiad egnïol i'r ymgyrch yn erbyn Wylfa B. Caiff y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan a'r awdurdodau lleol, y cyfryngau a phobl Gwynedd, weled yn ddigamsyniol y bydd gwrthwynebu ffyrnig i'r Adweithydd Dŵr dan Bwysedd.

Eisoes penderfynodd CND Cymru i ymgyrchu yn arbennig ar gwestiwn plutonium — sef y ddolen gysylltiol rhwng ynni niwclear ac arfau niwclear. Hyn a fu sail yr ymgyrchu yn erbyn Hinkley C, ond y tro hwn, bwriadwn ledaenu'r frwydr ymysg y cyhoedd, y tu allan i ffiniau Ymchwiliad Cyhoeddus.

Ebe James Stewart, un o'r ymgyrchwyr, "Fe danlinellwn ni y cysylltiad rhwng ynni niwclear ac arfau niwclear, ond dim ond rhan o'n gweithgaredd fydd hyn oddi fewn i'r ymgyrch ehangach i gyfuno'r holl wrthwynebwyr amryfal sy'n codi yn erbyn Wylfa B.



yn ddigon i ddileu un gorsaf PWR.

- **Buddsoddi mewn rhaglen o Gyfuno Gwres a Phwer a Chynlluniau Gwresogi Ardaloedd. Mae rhain yn gwneud y defnydd o'r gwres sy'n cael ei wastraffu a hefyd yn defnyddio cyfarpar hidlo rhag llygredd a thrwy hynny leihau yr hyn sy'n cael ei ollwng i'r awyr sy'n achosi glaw asid.**
- **Llawer mwy o fuddsoddiad mewn ynni naturiol fel ynni'r haul neu'r gwynt.**
- **Codi argaeon i fanteisio ar y llanw a'r trai ar lefydd fel y Taf a'r Mersi. Er hynny mae dadleuon cadwriaethol cryf iawn dros beidio a chodi argaeon o'r fath.**

Mae effaith y Tŷ Gwydr efo ni *rwan*. Gwiriondeb o'r mwyaf yw credu y gall y gorsafoedd PWR sy'n aneffeithiol, annibynadwy a hen ffasiwn — heb sôn am y broblem gwastraff niwclear ddaw yn eu sgil — wneud unrhyw gyfraniad yn y frwydr yn erbyn gordwymo'r byd.

Mae'n hollbwysig fod aelodau CND yn medru dadlau yn erbyn haeriadau hyrwyddwyr ynni niwcliar y gellir greu 'teulu' o adweithyddion Prydeinig ein harbed ni rhag effaith y 'trap gwres'.

Mae Cyfeillion Ddaear Cymru wedi gwneud arolwg yn ddiweddar o ymateb yr awdurdodau lleol i broblemau Effaith y Tŷ Gwydr. Am fanylion am hwn a rhagor o wybodaeth ar y thema 'Nid Niwclear yw'r Ateb', cysylltwch â'n swyddfa yn 3a, Lias Rd., Porthcawl, Canol Morgannwg CF36 3AH.

**Margaret Minhinnick**

---

**"Yr hyn sy ei angen yw ymgyrch eang ei hapêl a all gyfuno'r holl agweddau hyn ar wrthwynebiad. Mae'n rhaid taranu'r neges fod pobl Ynys Môn, Gwynedd, Iwerddon, Canolbarth Lloegr a Glannau Merswy yn gwrthod y cynllun hwn drwodd a thro.**

**"Rhaid uno'r neges hon hefo'r ymgyrchoedd parhaus sy'n bodoli yn erbyn yr Adweithyddion Dŵr dan Bwysedd yn Sizewell a Hinkley Point."**

**Fe fanteisia'r ymgyrch ynglŷn â'r Wylfa oddi wrth brofiadau Cyngrair Wrth-Niwclear Cymru a gyfunodd yr holl wrthwynebiad i Hinkley Point, ond y mae'n debyg na fydd yn bodloni ar ddadlau oddi fewn i fframwaith Ymchwiliad Cyhoeddus yn unig. Eisoes fe ystyrir spectrwm eang o dactegau, ac fe ffurfiwyd perthynas agos hefo'r gwrthwynebwyr i Adweithyddion Dŵr dan Bwysedd Iwerddon a Gogledd-Orllewin Lloegr.**

**Safle'r Wylfa yw canolbwynt Ynysoedd Prydain, a charai CND Cymru weld Ymgyrch yn Erbyn Arfau Niwclear Prydain ac Iwerddon oll yn chwarae rhan yn y brwydro.**

**Ebe James Stewart, "Bydd rhaid inni weithredu mewn hinsawdd wleidyddol amryfal, gan apelio mewn gwahanol ffyrdd, Mae'n rhaid inni newid 'gwrthwynebu ar bapur' cyrff fel Plaid Cymru ac undebau Llafur Cymru i fod yn gymrychu grymus.**

**"Efallai nad yr un ymateb sy'n mynd i ysgogi pobl yn Ne Cymru neu Lerpwl a phobl yn Ynys Môn neu Ddulyn. Bydd angen dulliau gwahanol ar gyfer cynghorau sir pwerus Llafur, ar y naill law, a chynghorau cymuned gwledig ar y llaw arall.**

**"Ond yr ydym am i bawb lefaru'r un neges yn groyw a hyglyw, sef Wylfa B — Na!"**

# PRYDAIN AR WAHÂN

Lle lawn dirgelwch yn wir yw'r byd hwn.

**Pam, o gofio'r camau cyntaf mewn diarfogi a gymerwyd gan yr Undeb Sofietaidd a'r croeso a gafodd y rhain gan y rhan fwyaf o Ewrob, fod tair o'r pleidiau gwleidyddol mwyaf ym Mhrydain i'w gweld yn symud i'r cyfeiriad arall?**

Yng Nghymru gyda'i thraddodiad hir o gefnogaeth i ddiarfogi, nid yw'n syndod o gwbl fod pob pôl-piniwn yn dangos fod rhwng 60-90% o'r boblogaeth o blaid mwy o doriadau mewn gwario ar arfau. Yn anffodus, nid yw'n amlwg fod hyn yn cael ei adlewyrchu gan rai o'n harweinwyr gwleidyddol er fod llawer o Aelodau Seneddol Llafur yn dal i'n cefnogi, a hefyd wrth gwrs Blaid Cymru a'r Blaid Werdd.

Gwyddom i gyd fod Mrs Thatcher eisiau ail-arfogi niwcliar a chonfensiynol. Cynrychiola Mrs Thatcher y sefyllfa beryglus honno all neilltuo Prydain oddi wrth y gweddill yn wleidyddol ac yn economaidd ond yn fwy na hynny ei hamddifadu o rithyn o foesoldeb.

Mae'n anffortunus fod y Blaid Lafur a'r SLD yn troedio'r llethrau llithrig sy'n arwain oddi wrth ymroddiad i gael gwared o arfau niwcliar Prydeinig yn annibynnol at un sy'n disgwyl wrth drafodaethau amlochrog.

Gellid dadlau fod y dair brif blaid wleidyddol ar fin cyrraedd consensws ar bolisi amddiffyn. Gallai hyn gael yr effaith o'i dynnu o'r agenda gwleidyddol ac felly ei wneud yn ddibwys i'r cyfryngau ac annos felly i ddiarfogwyr greu'r trafodaethau cyhoeddus angenrheidiol.

Nid yw dogfen adolygiad polisi'r Blaid Lafur yn negyddol i gyd. Haera fod gobaith am fyd rhydd o arfau niwcliar erbyn y flwyddyn 2000. Mae ymrwymiad i drawsdori amddiffyniaeth (A yw y Sefydliad Arfau Niwcliar yng Nghaerdydd yn gwrando?).

Ond fel y dywaid Bruce Kent, "Y ffaith wrthnysig yw pe bai Llywodraeth Lafur yn dod i rym am bum mlynedd lawn, gallai fethu diddymu odid un arf niwcliar neu gonfensiynol, methu torri ceiniog ar wariant y gyllideb amddiffyn, methu gwneud i ffwrdd ag unrhyw un o'r safleoedd militaraidd Americanaidd ar diriogaeth Prydeinig, ac er hyn i gyd, fyw'n gyfforddus o fewn ffiniau'r polisi newydd hwn."

Ymateb yw newid Llafur i ddeng mlynedd rwystredig wastraffwyd fel gwrthblaid a'r angen dwys i ennill pleidleisiau yn Ne-Ddwyrain Lloegr.

Fel y dywed Meg Beresford, Ysgrifennydd Cyffredinol CND Prydain: "Swyddogaeth gwleidyddion yw plygu i drefn barn gyhoeddus, a ni, sef CND, yw'r bobl sydd i gynhyrchu'r weledigaeth o Brydain Ddi-Niwcliar mewn Byd Ddi-Niwcliar.

Gorfodwyd y Canghellor Kohl gan farn y cyhoedd a phwysau'r cyfryw i wrthwynebu cael unrhyw arfau niwcliar newydd ar gyfer targedau-agos ar dir yr Almaen. Rhaid i ninnau wneud yr un modd er gwrthwynebu cael mwy o awyrennau jet Fl-11 yr Unol Daleithiau yn Upper Heyford. Fe arfogir y cyfryw â thaflegrau niwcliar fel ffordd o lesteirio dibenion Cytundeb INF.

Mae gan bobloedd Ewrob gyfle hanesyddol i ddarostwng ymraniadau'r gorffennol, ymwrthod â'r ras arfogi a chaniatau i ryddid a chyfiawnder ffynnu.

Rhaid i ni yng Nghymru wrthod caniatad i wleidyddion cibddall ddiffodd golau'r gobaith hwn. Trwy ddal i ymgyrchu ac ennill cefnogaeth, gallwn ddangos iddynt mor gibddall ydynt mewn difri'.

**Bob Cole**

# PLEIDLAIS DROS HEDDWCH

**Cefnogodd tri chwarter etholwyr Cymru yn Etholiad Ewrob ymgeiswyr a arwyddodd Apêl Gydwladol am Heddwch yr etholiad.**

**Lluniwyd yr Apêl gan fudiadau heddwch dros Ewrob. Galwodd am gynnydd mewn diarfogi, detente, datblygiad a democratiaeth yn cynnwys Ewrob benbaladr — nid y Gymuned Ewropeaidd yn unig.**

**CND Cymru oedd gwestywr lansiad Cymreig yr Apêl yn Nheml Heddwch, Caerdydd, gydag ymgeiswyr y Blaid Werdd, y Blaid Lafur a Phlaid Cymru yn bresennol.**

**Dywedodd Rhodri Glyn Thomas, Cadeirydd CND Cymru, fod yr Apêl yn ddogfen bwysig, gan ei bod yn amlinellu dyfodol cynyddol a heddychlon i'r Gymuned Ewropeaidd ac i Ewrob gyfan. "Dyma'r dyfodol yr edrycha y mwyafrif llethol o bobl Cymru ymlaen ato," meddai.**

**Cefnogwyd yr Apêl gan holl ymgeiswyr Ewrob Cymru, o'r Blaid Lafur, Plaid Cymru a'r Blaid Werdd, ynghyd â'r Democratiaid o'r Gogledd ac o'r De. Enillodd y pedwar ymgeisydd ar ddeg 75 y cant o'r pleidleisiau a gafodd eu bwrw yn yr etholiad.**

**Rhoddodd y bleidlais a fwriwyd mwy o rym i bôl piniwn a gyhoeddwyd gan CND Cymru ar Fehefin 12fed. Cynhwysai hon 786 o bobl o naw tref ledled Cymru. Mynegodd 73 y cant o'r rhai a holwyd y carent weld symud arfau niwclear o Ewrob.**

**"Y mae'n amlwg, fod pobl Cymru yn rhannu ein gweledigaeth o ddyfodol newydd oddimewn i Ewrob ddi-niwclear," meddai Rhodri Thomas.**

# EISTEDDFOD GENEDLAETHOL DYFFRYN CONWY




# Dewch i ymweld â stondin "Cymru Ddi-Niwclear"

---

## FFURFLEN AELODAETH AR GYFER EICH FFRINDIAU
## MEMBERSHIP FORM FOR YOUR FRIENDS

Enw/Name ........................................ Llythrennau bras/Capitals letters

Cyfeiriad/Address ..........................................................................

..........................................................................................

Sir/County ..................................... Côd Post/Postcode ....................

**Membership/Tâl Aelodaeth**

Oedolyn/Adult £9 Cwpl/Couple £12

Myfyriwr/Student, Ieuenctid/Youth,

Heb waith a phensiynwyr/Unwaged and pensioners — all £3

Dymunaf gyflwyno rhodd/I wish to make a donation £........

Am aelodaeth amgaeaf/For membership I enclose £.........

Gwneler sieciau'n daladwy a danfoner i/Make cheques payable and send to:

*CND Cymru, 56 Bryn Aeron, Dyfnant, Abertawe/Swansea SA2 7UX*

## YMGYRCH CYMRU

**Cyhoeddwyr Ymgyrch Cymru yw CND Cymru. Danfonwch lythyrau, erthyglau, lluniau, cartwnau at y golygydd: Rhoda Jones, Tŷ Isaf, Ffestiniog, Gwynedd. Cysylltwch ag CND Cymru trwy'r Ysgrifenyddes Gyffredinol: Veronica Wood, 56 Bryn Aeron, Dyfnant, Abertawe SA2 7UX neu trwy ffônio'r gweithiwr ymgyrchu: James Stewart, 0222 832275. Argraffwyd Ymgyrch Cymru ar bapur wedi'i ailbrosesu gan Argraffwyr Eryri, Bethel, Caernarfon.**

## CAMPAIGN WALES

**is published by CND Cymru. Send letters, articles, pictures, cartoons to the Editor, Rhoda Jones, Tŷ Isaf, Ffestiniog, Gwynedd. Contact CND Cymru by writing to the General Secretary, Veronica Wood at 56 Bryn Aeron, Dunvant, Swansea SA2 7UX or by phoning the full-time Campaign Worker, James Stewart, on (0222) 832275. Campaign Wales is printed on recycled paper by Argraffwyr Eryri, Bethel, Caernarfon.**